Ysgol Pentreuchaf

116. Polisi Mynediad i Ddisgyblion ag Anableddau

Nod

Creu amgylchedd cyfoethog sy'n galluogi disgyblion anabl i ymgyfrannu'n llawn yng nghymuned yr ysgol, trwy adnabod a dileu rhwystrau a allai atal hynny.

Canllawiau

1. Peidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl wrth dderbyn a gwahardd, ac wrth ddarparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig.
2. Peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol.
3. Cymryd camau rhesymol i osgoi gosod disgyblion anabl dan anfantais sylweddol
4. Cyhoeddi Cynllun Hygyrchedd.
5. Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl – mae mynedfa addas i blentyn mewn cadair olwyn.
6. Gwella'r ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau
7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, bydd yr holl staff a'r llywodraethwyr yn dilyn Côd Ymarfer Comisiwn Hawliau Anabledd (2002).
8. Cydnabod hawl y rhieni a'r plentyn i gyfrinachedd.
9. Pe byddai'r Awdurdod Addysg yn caniatau mynediad i blentyn ag anableddau i'r ysgol, yna fe fydd yr ysgol, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod yn asesu gofynion y plentyn ac yn diwygio'r cynllun gweithredu yn unol â chanlyniadau'r asesiad.

Casgliad

Mae cydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn allweddol i holl bolisiau'r ysgol. Mae pob plentyn yn unigolyn sydd â'r hawl i'r addysg orau y gall ei dderbyn, beth bynnag fo natur ei anabledd. Nid yw'r ysgol hon yn ysgol ddynodedig dan gam cyntaf strategaeth yr Awdurdod Addysg. Serch hynny, mae cyfrifoldeb arnom i gynllunio i leihau rhwystrau mynediad i blant ag anableddau fel y gellir rhoi'r cyfle gorau i blant y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad iddynt gael mynediad i'r ysgol i allu dod yma.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____